OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 764

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

## RHAN 3

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

**Cyflwyniad**

**11.** Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Diwygiad i reoliad 3**

**12.** Yn rheoliad 3(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022;".

**Diwygiad i reoliad 6**

**13.** Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (2)(b)—

(i) yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) ym mharagraffau 2, 2A, 3, 4, 4ZA, 4ZB, 4ZC, 5, 6A, 8A, 9A, 9B, 9BA, 9C, 9D, 10A, 11A a 12A o Ran 2 o Atodlen 1, neu";

(ii) yn lle paragraff (ii) rhodder—

"(ii) ym mharagraffau 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 o Ran 2 o Atodlen 1, pan fo paragraff (2A) yn gymwys.";

(b) ar ôl paragraff (10F) mewnosoder—

(**1**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2019/1192 (Cy. 209), O.S. 2021/9 (Cy. 4), O.S. 2021/1294 (Cy. 328), O.S. 2022/49 (Cy. 18) ac O.S. 2022/79 (Cy. 28).

“(10G) Pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A” yn y paragraff hwn), yn rhinwedd y ffaith ei fod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr Athrofa y trosglwyddwyd statws A fel myfyriwr cymwys ohono i’r cwrs cyfredol; a

(b) ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi yn dechrau, y cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi dod i ben ac nad oes unrhyw ganiatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei roi,

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.”

**Diwygiad i Atodlen 1**

**14.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 4ZB mewnosoder—

“**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**4ZC.** Person—

(a) sy’n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir; ac

(c) sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.”